**<u>Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol</u> HSS-19-00(p.5)**

**Dyddiad:** 8 Tachwedd 2000

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora , Cynulliad Cenedlaethol Cymru

**Teitl:** Y Rhaglen Arloesi Mewn Gofal - papur i'w nodi

## Diben

1. Yn ystod y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Hydref, gofynnodd aelodau am ddadansoddiad o'r rhaniad rhwng tair elfen cyllideb y rhaglen Arloesi mewn Gofal.

## Gwybodaeth

2. **Amcangyfrifwyd** yr wybodaeth, gan ei bod yn rhaglen waith sy'n datblygu, a chaiff yr arian ei ddyrannu i gyflawni amcanion y rhaglen fel a nodir yn y papur i'r Pwyllgor ar 11 Hydref (HSS-17-00(p3)).

Ar gyfer y flwyddyn ariannol 2000/2001: cyfanswm sydd ar gael £800k

- Costau rhedeg (rhan o'r flwyddyn) gan gynnwys staff, teithio, cyfarpar, hyfforddiant ac ati £200k
- Rhaglen datblygu, hyfforddi a chyfathrebu ar lefel Cymru-gyfan er mwyn lledaenu arferion gorau£50k
- Arian ysgogi ar gyfer cynlluniau sy'n cynnwys arferion blaengar, gofal cleifion o ansawdd well, derbyniadau wedi'u neilltuo a blaenoriaethu clinigol:£550k

**JANE HUTT**

**Ysgrifennydd y Cynulliad**